# Arweiniad ar wasanaethau rhaglenni ar-alw

Datganiad ar arweiniad i ddarparwyr ODPS ar rwymedigaethau mewn perthynas â gwaith Ewropeaidd

**DATGANIAD**

Dyddiad cyhoeddi: 7 Medi 2022

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 1

2. Cyflwyniad 2

# 1. Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniadau o ran sut y byddwn yn gweithredu cwotâu newydd ar gyfer cynnwys 'gwaith Ewropeaidd' ar wasanaethau fideo ar-alw wedi'u rheoleiddio. Mae'n dilyn ymgynghoriad a fu'n cynnwys arweiniad arfaethedig i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw ("ODPS") ar y gofynion newydd.**

Rydym wedi cyhoeddi ein harweiniad terfynol ochr yn ochr â'r datganiad hwn. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen Rheolau ac Arweiniad ODPS Ofcom sy'n nodi'r rhestr lawn o ofynion statudol y mae'n rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â hwy ac yn cynorthwyo darparwyr yn eu dealltwriaeth o sut mae Ofcom yn dehongli'r rheolau hyn.

Mae'r arweiniad terfynol yn adlewyrchu newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2020 gan ddisodli arweiniad presennol Ofcom ar rwymedigaethau gwaith Ewropeaidd i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw. Mae'r newidiadau hyn yn deillio o drawsosodiad y DU o Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweled diwygiedig 2018 i gyfraith y DU, yn unol â thelerau'r Cytundeb Ymadael â'r UE. Maen nhw'n gosod gofynion ar ddarparwyr ODPS i sicrhau bod o leiaf 30% o'r rhaglenni sy'n cael eu cynnwys yn eu gwasanaethau ar gyfartaledd yn waith Ewropeaidd ac i wneud y cynnwys hwn yn amlwg. Mae'r gwaith Ewropeaidd yn cynnwys gwaith sy'n tarddu o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd a hefyd gwaith sy'n tarddu o Wladwriaethau Ewropeaidd eraill sy'n bleidiol i Gonfensiwn Ewropeaidd Cyngor Ewrop ar Deledu Trawsffiniol ("yr ECTT"). Mae'r DU yn parhau'n rhan o'r ECTT ac felly mae gwaith sy'n tarddu o'r DU yn cael ei gynnwys fel gwaith Ewropeaidd.

Mae'n rhaid i Ofcom gymryd camau i sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, sydd wedi eu hymgorffori yn Rheolau ac Arweiniad ODPS Ofcom fel Rheol 15.

Mae adran 368CB y Ddeddf yn pennu bod y gofynion hyn i'w dehongli'n unol â chanllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar waith Ewropeaidd o fis Gorffennaf 2020. Gan hynny, mae ein harweiniad terfynol yn dilyn y canllawiau hynny ac yn cyfeirio atynt fel y bo'n briodol.

Byddwn yn gofyn am wybodaeth gan ddarparwyr yng Ngwanwyn 2023 o ran sut y maent wedi bodloni'r gofynion ar gyfer blwyddyn galendr 2022.

# 2. Cyflwyniad

## Ein hymgynghoriad

2.1 Rhwng 25 Ionawr a 22 Mawrth 2022, ymgynghorodd Ofcom ar arweiniad drafft ar gyfer darparwyr ODPS ar ofynion newydd o ran gwaith Ewropeaidd. Esboniodd yr arweiniad drafft ein cynigion ar gyfer dehongli'r gofynion a'r eithriadau perthnasol y darperir ar eu cyfer yn y gyfraith, a'r camau y byddem yn eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth darparwyr. Ni ymdriniodd ein hymgynghoriad â rhannau o'r gofynion lle pennwyd ein hymagwedd arfaethedig yn llawnach gan y ddeddfwriaeth sylfaenol a chanllawiau'r Comisiwn y mae'n ofynnol i ni eu dilyn yn ôl y gyfraith, a/neu le'r oeddem yn ystyried bod ein harweiniad arfaethedig yn hunanesboniadol.

2.2 Mae'r datganiad hwn yn crynhoi: yr ymagwedd a bennwyd gennym yn ein hymgynghoriad a'n harweiniad drafft; yr ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad; a'r penderfyniadau y cyrhaeddom wrth ymateb i'r pwyntiau a godwyd, gan gynnwys unrhyw newidiadau yr ydym wedi eu gwneud i'n harweiniad terfynol. Rydym yn cynnwys ein harweiniad terfynol mewn newidiadau wedi'u tracio fel Atodiad 2.

## Fframwaith cyfreithiol

2.3 Mae adran 368CB y Ddeddf Gyfathrebiadau'n nodi cyfrifoldebau ODPS o ran gwaith Ewropeaidd. Mae'r rhain, ynghyd â'r diffiniad o waith Ewropeaidd, yn deillio o Erthygl 13 AVMSD.

2.4 Mae'n ofynnol i ddarparwyr:

a) sicrhau, ym mhob blwyddyn, bod o leiaf 30% o raglenni ar gyfartaledd sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth yn waith Ewropeaidd; a

b) sicrhau amlygrwydd gwaith Ewropeaidd yn y gwasanaeth.

2.5 Nid yw'r rhwymedigaethau hyn yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw gyfnod cyfan pan fydd:

a) gan y gwasanaeth drosiant isel neu gynulleidfa isel; neu

b) ei fod yn anymarferol neu heb gyfiawnhad i'r gofynion fod yn berthnasol oherwydd natur neu thema'r gwasanaeth.

2.6 Mae'r ail o'r eithriadau hyn (h.y. pan fo'n anymarferol neu heb ei gyfiawnhau) yn ôl disgresiwn Ofcom.

2.7 Nid yw "rhaglenni" yng nghyd-destun y gofyniad cwota 30% yn cynnwys hysbysebion, rhaglenni newyddion, digwyddiadau chwaraeon, gemau, gwasanaethau teletestun neu delesiopa.

2.8 Mae'n ddyletswydd ar Ofcom i gymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth darparwyr â'r gofynion[1], gan gynnwys:

a) y pŵer i ofyn am wybodaeth[2]; ac

b) y pŵer i roi hysbysiad gorfodi a/neu osod cosb ariannol o hyd at 5% o drosiant blynyddol darparwr neu £250,000, p'un bynnag sy'n uwch[3].

## Y diffiniad o waith Ewropeaidd

2.9 Diffinnir **'gwaith Ewropeaidd'** yn y Ddeddf gan gyfeirio at Erthygl 1 AVMSD fel:

a) gwaith sy'n tarddu o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd;

b) gwaith sy'n tarddu o Wladwriaethau Ewropeaidd eraill sy'n rhan o'r Confensiwn Ewropeaidd Cyngor Ewrop ar Deledu Trawsffiniol ("yr ECTT")[4]; a

c) gwaith a gyd-gynhyrchir o fewn fframwaith cytundebau sy'n gysylltiedig â'r sector clyweled rhwng yr Undeb Ewropeaidd a thrydydd gwledydd a chyflawni'r amodau a ddiffinnir ym mhob un o'r cytundebau hynny.

## Canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd

2.10 Mae'r Ddeddf yn nodi y dylid dehongli gofynion ac eithriadau gwaith Ewropeaidd yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfrifo'r gyfran o waith Ewropeaidd mewn catalogau ODPS ac ar y diffiniad o gynulleidfa isel a throsiant isel ("canllawiau'r Comisiwn"). Gan hynny mae ein harweiniad yn dilyn canllawiau'r Comisiwn ac yn cyfeirio atynt fel y bo'n briodol.

---

[1] Adran 368C(1) y Ddeddf.
[2] Adran 368O y Ddeddf.
[3] Adrannau 368I a 368J y Ddeddf.
[4] Mae'r DU yn un o lofnodeion yr ECTT.